Docusign Envelope ID: 43B2C3A0-EE1C-4CD4-968F-079F109CBC89

**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

**ADRAN 16 (A) FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF TRAFFIG FFYRDD (CYFYNGIADAU DROS DRO) 1991**

# GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN(DIGWYDDIADAU ARBENNIG) (SIOE CEIR CLASUROL LLANDEILO 2025)

# (RHEOLI TRAFFIG DROS DRO) 2025

---

Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") yw'r Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y darnau ffordd hynny y cyfeirir atynt yn benodol yn Erthygl 1 isod ac sydd wedi'u dynodi i'w defnyddio fel y llwybrau ar gyfer cynnal Sioe Ceir Clasurol Llandeilo ('y Digwyddiad'). Mae trefnwyr y Digwyddiad yn dymuno gwahardd cerbydau rhag defnyddio'r darnau ffordd hynny a ddisgrifir yn Erthygl 1 ar 13 Gorffennaf 2025 rhwng 08:00 a.m. a 17:00 p.m. er mwyn cynnal y digwyddiad.

**YN AWR** gan hynny, mae'r Cyngor, gan ymarfer ei bwerau o dan Adran 16(A) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) a'r holl bwerau galluogol eraill, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ac eithrio fel y nodir yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur fynd ar hyd:

   a) Stryd y Brenin ar ei hyd, o'r gyffordd â Stryd y Bont hyd at y gyffordd â George Hill;
   b) Stryd y Farchnad, o'i chyffordd â Stryd Caerfyrddin hyd at ei chyffordd â Stryd y Brenin

   Rhwng 08.00 a.m. a 17.00 p.m. ddydd Sul y 13eg diwrnod o fis Gorffennaf 2025.

2. Ni fydd dim yn Erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn:

Docusign Envelope ID: 43B2C3A0-EE1C-4CD4-968F-079F109CBC89

a) yn atal mynediad ar unrhyw adeg i gerddwyr i eiddo sydd ar neu gerllaw unrhyw un o'r ffyrdd y mae'r Gorchymyn yn ymwneud â hwy neu i unrhyw eiddo y gellir ond cael mynediad iddo gan gerddwyr o ffordd o'r fath,

b) berthnasol i unrhyw gerbyd modur sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, brigâd dân neu ambiwlans neu ymgymerwr statudol neu awdurdod lleol sy'n mynychu argyfwng,

c) yn berthnasol i unrhyw beth a wneir gyda'r caniatâd neu ar gyfarwyddyd cwnstabl yr heddlu mewn lifrai, ac

d) yn berthnasol i unrhyw gerbyd modur sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r Digwyddiad

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ddydd Sul 13 Gorffennaf 2025 a bydd yn parhau mewn grym rhwng 08.00 a.m. a 17.00 p.m. a gellir ei nodi fel Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Digwyddiadau Arbennig) (Sioe Ceir Clasurol Llandeilo) (Rheoli Traffig Dros Dro) 2025.

19169

**RHODDWYD SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** )
ar y ddogfen hon )
ar y 23 diwrnod o Fehefin 2025 )
ym mhresenoldeb:- )

Signed by:
Steven P Murphy
6947BF055CF64B2...

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**